**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Ymchwiliad i bolisi dŵr yng Nghymru

Awst 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Ymchwiliad i bolisi dŵr yng Nghymru

Awst 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: cynnal, datblygu a chynllunio ar gyfer amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



**Mick Antoniw**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Llyr Huws Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Julie James**
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**William Powell**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Antoinette Sandbach**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Vaughan Gething**
Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberafan

# Cynnwys


**Cyflwyniad ..... 5**

Cystadleuaeth dŵr ..... 5

Adolygiad Cave (2009) ..... 5

Bil Dŵr Drafft y DU ..... 6

Fforddiadwyedd dŵr ..... 6

Adolygiad Walker (2009) ..... 7

Canllawiau Tariffau Cymdeithasol ..... 7

**1. Cystadleuaeth yn y farchnad annomestig ..... 8**

Dŵr Cymru ..... 8

Safbwynt Dŵr Cymru ..... 9

Severn Trent Water ..... 10

Safbwynt Severn Trent Water ..... 10

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ..... 11

Safbwynt y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ..... 11

Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ..... 13

Safbwynt Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ..... 13

Ofwat ..... 14

Safbwynt Ofwat ..... 14

Safbwynt Llywodraeth Cymru ..... 14

Barn y Pwyllgor ..... 17

**2. Fforddiadwyedd dŵr ..... 19**

Adolygiad Walker (2009) ..... 19

Mesuryddion dŵr ..... 21

Yr effaith ar filiau dŵr ..... 21

Yr effaith o ran defnyddio llai o ddŵr ..... 24

Safbwynt Llywodraeth Cymru ..... 26

Barn y Pwyllgor ..... 27

Cymorth i gwsmeriaid tlawd ..... 27

Canllawiau Tariffau Cymdeithasol ........ 28
Barn y Pwyllgor ........ 29
Dyledion Drwg ........ 30
Barn y Pwyllgor ........ 31
**3. Strategaeth Ddŵr i Gymru ........ 32**
Barn y Pwyllgor ........ 32
**Atodiad A – Cylch Gorchwyl ........ 33**
**Atodiad B - Tystion ........ 34**
**Atodiad C - Tystiolaeth Ysgrifenedig ........ 36**

# Cyflwyniad

1. Cynhaliodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ymchwiliad i bolisi dŵr yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at oblygiadau Bil Dŵr drafft y Deyrnas Unedig (DU) i Gymru a chynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd dŵr.

2. Roedd dwy elfen benodol i'r ymchwiliad; cystadleuaeth (yn y farchnad annomestig), a fforddiadwyedd (i gartrefi). Dyma oedd y cylch gorchwyl:

- asesu goblygiadau'r Bil Dŵr Drafft i Gymru, yn enwedig o ran cystadleuaeth yn farchnad annomestig; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â materion fforddiadwyedd dŵr i gartrefi.

3. Mae tri phrif gwmni dŵr yn cyflenwi dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth i gwsmeriaid yng Nghymru ar hyn o bryd – Dŵr Cymru, Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy.

**Cystadleuaeth dŵr**

***Adolygiad Cave (2009)***

4. Cafodd Adolygiad Cave, o dan arweiniad yr Athro Martin Cave, ei gomisiynu ar y cyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru yn 2008 i adolygu cystadleuaeth ac arloesi mewn marchnadoedd dŵr yng Nghymru a Lloegr. Daeth yr adroddiad terfynol, yn 2009, i'r prif gasgliadau canlynol ynglŷn â chystadleuaeth:

- Dylid rhoi pwerau newydd i Asiantaeth yr Amgylchedd i fynd i'r afael â gor-echdynnu ac i annog masnachu trwyddedau;
- Byddai manteision o gyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad gyfanwerthu;
- Efallai y byddai manteision o ganiatáu cystadleuaeth adwerthu yn y farchnad annomestig. Law yn llaw â hyn dylid gwahanu'r gangen adwerthu oddi wrth weddill busnes y cwmnïau dŵr; a
- Dylai'r gyfundrefn uno arbennig gael ei diwygio a'i chyfyngu lle mae cynlluniau uno'n debygol o effeithio ar allu Ofwat i gynnal cystadleuaeth gymharol.

5. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y gallai'r diwydiant arbed £2.5 biliwn, ym mhrisiau heddiw, dros 30 mlynedd, drwy arbedion effeithlonrwydd. Ceid gwell canlyniadau amgylcheddol hefyd a gwasanaeth o ansawdd uwch.[1]

### *Bil Dŵr Drafft y DU*

6. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil Dŵr Drafft ar 10 Gorffennaf 2012.[2] Mae'r Bil Drafft yn cynnwys mesurau a fydd yn rhoi mwy o ddewis i fusnesau a chwsmeriaid annomestig eraill yn Lloegr drwy ganiatáu iddynt newid eu cyflenwyr dŵr a charthffosiaeth a chael gwared ar rai o'r gofynion rheoleiddio sy'n cael eu hystyried yn rhwystr rhag i gwmnïau newydd ddod i mewn i'r farchnad.

7. Gallai fod i'r Bil Dŵr Drafft oblygiadau i Gymru oherwydd mae modd i ddarpariaethau'r Bil Dŵr Drafft gael eu hymestyn i Gymru os yw Llywodraeth Cymru'n dymuno hynny.

8. Ar hyn o bryd ychydig o gyfle sydd yna i gwsmeriaid annomestig yng Nghymru newid eu cyflenwyr dŵr.[3] Mae cwsmeriaid annomestig yng Nghymru sy'n defnyddio, neu sy'n debygol o ddefnyddio, o leiaf 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn ar bob safle yn gallu dewis eu cyflenwyr dŵr o blith cwmnïau newydd sy'n dod i mewn i'r farchnad. Mae'r trothwy cyfatebol yn Lloegr lawer yn is, ar 5 megalitr.[4]

### Fforddiadwyedd dŵr

9. Mae fforddiadwyedd dŵr yn fater sy'n effeithio ar filoedd lawer o bobl yng Nghymru. Dywedodd Dŵr Cymru wrth y Pwyllgor ei fod yn amcangyfrif bod 14% o'r cartrefi yn ei ardal, rhwng 150,000 a 160,000, yn gwario mwy na 5% o incwm y cartref ar filiau dŵr.[5] Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei Rhaglen Lywodraethu, wedi ymrwymo i weithredu i wneud dŵr yn fforddiadwy yng Nghymru. Yn ôl y Diweddariad i'r Rhaglen Lywodraethu (Mai 2012), bydd Llywodraeth Cymru yn:

---

[1] Defra, The Environment, Quality and Safety, Water, Water Industry, *Cave Review* [fel ar 6 Mawrth 2013]
[2] Defra, Environment, Water, air, other environment quality issues, Water, Overall water legislation/policies, *Draft Water Bill* [fel ar 5 Mawrth 2013]
[3] Llywodraeth Cymru, Pynciau, Yr Amgylchedd a Chefn Gwlad, Yr Amgylchedd – Diogelu ac Ansawdd, Dŵr, *Rheoleiddio'r diwydiant dŵr* [fel ar 5 Mawrth 2013]
[4] Ofwat, Non-household consumers, Choosing your supplier, *Choosing a water supply licensee* [fel ar 5 Mawrth 2013]
[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p18, 21 Mawrth 2013

- Datblygu cynigion am system codi tâl deg, wedi'i seilio ar argymhellion Adolygiad Walker
- Darparu Canllaw Tariffau Cymdeithasol
- Ymgynghori ynghylch Rheoliadau Dyledion Drwg
- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Ddŵr i Gymru.

### *Adolygiad Walker (2009)*

10. Cyd-gomisiynwyd Adolygiad Walker gan Lywodraethau'r DU a Chymru yn 2008 i adolygu'r trefniadau i godi tâl am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr, a'r defnydd o fesuryddion. Arweiniwyd yr adolygiad gan Anna Walker, Prif Weithredwr y Comisiwn Gofal Iechyd ar y pryd.[6]

11. Argymhellodd yr adolygiad gamau y gellid eu cymryd i sicrhau bod system codi tâl gynaliadwy a theg ar waith, yn cynnwys newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.

### *Canllawiau Tariffau Cymdeithasol*

12. Ar 1 Mawrth 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i alluogi cwmnïau dŵr i ddatblygu tariffau cymdeithasol i helpu'r bobl sy'n ei chael yn fwyaf anodd talu eu biliau.[7]

13. Mae'r canllawiau'n pennu'r fframwaith i gwmnïau dŵr ar gyfer datblygu tariff cymdeithasol os ydynt yn dewis gwneud hynny. Maent yn cynnwys beth ddylai gael ei ystyried wrth benderfynu a ddylai un grŵp o gwsmeriaid sybsideiddio grŵp arall, ac maent yn egluro beth y dylai Ofwat ei ystyried wrth gymeradwyo cynlluniau codi tâl.

14. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan randdeiliaid, yn cynnwys cwmnïau dŵr, Ofwat, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd er mwyn asesu goblygiadau'r polisïau hyn i Gymru.

---

[6] Defra, Publications, Environment, *The independent review of charging for household water and sewerage services (Walker review)* [fel ar 14 Mawrth 2013]
[7] Llywodraeth Cymru, Pynciau, Yr Amgylchedd a Chefn Gwlad, Yr Amgylchedd – Diogelu ac Ansawdd, Dŵr, *Canllaw tariffau cymdeithasol* [fel ar 14 Mawrth 2013]

# 1. Cystadleuaeth yn y farchnad annomestig

15. Byddai'r Bil Dŵr Drafft a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU yn caniatáu i gwsmeriaid annomestig yn Lloegr newid eu cyflenwyr dŵr a charthffosiaeth. Gellid ymestyn darpariaethau'r Bil i Gymru hefyd pe bai Llywodraeth Cymru'n penderfynu dilyn y trywydd hwnnw. Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae'r rhai sy'n defnyddio llawer o ddŵr – yn defnyddio neu'n debygol o ddefnyddio dros 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn, yn gallu newid eu darparwyr drwy ddewis derbyn eu dŵr oddi wrth gwmnïau newydd sy'n dod i mewn i'r farchnad. Byddai'r darpariaethau yn y Bil Drafft yn ymestyn y dewis hwn ymhellach drwy ganiatáu i gwsmeriaid newid i gyflenwr dŵr sydd yn y farchnad yn barod.

16. Clywodd y Pwyllgor farn amrywiol gan randdeiliaid pa un a oeddent yn credu y byddai cyflwyno cystadleuaeth i gwsmeriaid annomestig yn fuddiol i Gymru.

17. Fel rhan o'n gwaith casglu tystiolaeth, ceisiasom farn y rhai sy'n defnyddio llawer o ddŵr i ganfod a fyddent yn ystyried newid eu cyflenwr dŵr o dan y trefniadau sy'n cael eu cynnig yn y Bil Dŵr Drafft. Yn gyffredinol, dywedodd y busnesau y cysylltwyd â nhw y byddent yn ystyried newid eu cyflenwyr pe bai hynny'n arwain at arbedion gweddol sylweddol iddynt. Dywedodd y rhai a fyddai o blaid newid y byddai angen iddynt weld gostyngiad o 10-15% i'w perswadio i wneud hynny. Roedd gwasanaeth cwsmeriaid hefyd yn fater pwysig i'r busnesau hyn y siaradodd y Pwyllgor â nhw. Dywedasant na fyddent yn disgwyl i ostyngiad yng nghost eu cyflenwad dŵr fod ar draul y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan eu cyflenwr.

### Dŵr Cymru

18. Dŵr Cymru sy'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid annomestig a domestig yng Nghymru, gan wasanaethu 1.3 miliwn o gartrefi a thros 100,000 o fusnesau yng Nghymru, ac ardaloedd cyffiniol Swydd Henffordd a Glannau Dyfrdwy. Mae Dŵr Cymru yn eiddo i Glas Cymru (cwmni cyfyngedig drwy warant) a chaiff ei redeg fel "cwmni dielw, sy'n eiddo i'r cwsmeriaid"[8]. Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, canmolodd Nigel Annett, Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru, berfformiad ei gwmni yn cyrraedd safonau uchel ac yn gwneud arbedion dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd fod y lefelau boddhad ymysg cwsmeriaid

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p11 21, Mawrth 2013

Dŵr Cymru dipyn uwch na 90% a bod ansawdd y dŵr sy'n cael ei ddarparu bob dydd o'r flwyddyn uwchlaw 99.9%, sydd cystal ag y gall fod.[9]

### *Safbwynt Dŵr Cymru*

19. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor, ni chytunodd Dŵr Cymru y byddai cyflwyno cystadleuaeth yn y diwydiant dŵr yn fuddiol i'w gwsmeriaid. Dywedodd Nigel Annett wrthym ei fod yn credu y byddai sefydlu'r systemau sy'n ofynnol i alluogi pobl i newid rhwng cyflenwyr yn gostus. Dywedodd fod sefydlu systemau o'r fath yn yr Alban wedi costio £22 miliwn ac mai'r amcangyfrif oedd y byddai'r gost i Gymru a Lloegr yn £40 miliwn. Ychwanegodd fod profiad diwydiannau eraill, megis ynni, wedi gweld yr amcangyfrifon cynnar o'r costau yn dyblu neu hyd yn oed yn treblu.[10]

20. Cododd Mr Annett bryderon hefyd y gallai caniatáu i gwsmeriaid annomestig newid cyflenwyr arwain at gostau uwch i gwsmeriaid domestig. Eglurodd mai bychan yw'r gyfradd elw ac y gallai gostwng y tâl i gwsmeriaid annomestig er mwyn eu denu i newid cyflenwyr olygu y byddai'r gwahaniaeth yn y gost yn cael ei throsglwyddo i gartrefi.[11]

21. Dywedodd Mike Davis, Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoleiddio Dŵr Cymru, wrth y Pwyllgor fod darpariaeth yn ei lle eisoes i ganiatáu i'r defnyddwyr mwyaf newid eu cyflenwyr, ond nad oedd yr un o'r 113 o gwsmeriaid cymwys yr oedd yn eu cyflenwi wedi dewis gwneud hynny.[12]

22. Dywedodd Nigel Annett wrthym, pe bai Llywodraethau Cymru a'r DU yn mabwysiadu polisi gwahanol mewn perthynas â dŵr yn y dyfodol, y byddai Dŵr Cymru wedyn yn gweithredu o dan ddwy gyfundrefn wahanol – un yng Nghymru lle mae'r mwyafrif o'i gwsmeriaid wedi'u lleoli, ac un arall yn yr ardaloedd hynny o Swydd Henffordd y mae hefyd yn eu cyflenwi. Dywedodd Mr Annett wrth y Pwyllgor ei fod yn credu y gallai Dŵr Cymru weithredu o dan amgylchiadau felly pe bai rhaid.[13]

---

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p12, 21 Mawrth 2013
[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p73, 21 Mawrth 2013
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p73, 21 Mawrth 2013
[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p96, 21 Mawrth 2013
[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p87, 21 Mawrth 2013

## Severn Trent Water

23. Mae Severn Trent Water yn darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i ran fawr o ganolbarth Cymru ac, fel cwmni sy'n gweithredu'n bennaf yn Lloegr, caiff ei reoleiddio gan ddeddfwriaeth a pholisi Lloegr. Mae Severn Trent Water yn rhan o Severn Trent Plc, sy'n un o gan cwmni'r FTSE ac yn darparu gwasanaethau yn ymwneud â dŵr ledled y DU ac yn rhyngwladol.[14] Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Severn Trent Water ei fod yn ymrwymo i ddarparu gwerth rhagorol am arian i'w gwsmeriaid a bod ei filiau dŵr a charthffosiaeth cyfun cyfartalog oddeutu £100 yn llai nag mewn rhannau eraill o Gymru.[15]

### *Safbwynt Severn Trent Water*

24. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Severn Trent Water y dylid cyflwyno cystadleuaeth briodol i annog arloesi a chynaliadwyedd.[16] Ymhelaethodd Andrew Fairburn, Pennaeth Cysylltiadau Llywodraeth Severn Trent Water, ar hyn mewn tystiolaeth lafar, gan ddweud:

> "For water companies, I think that we need to be innovative. It is in that context that we support, as a general principle, the introduction of some competition into the water industry, because we think that it will reduce customers' bills. However, we think that probably the biggest advantage that it will bring is that it will drive environmental innovation and sustainability and innovation in how we serve customers. We think it will help spur that...... In some areas of what we as water companies do, it is appropriate that we have competition to keep us on our toes, to hold us to account, and to drive us to new ways of doing things."[17]

25. Aeth Mr Fairburn ymlaen i ddweud, er bod nifer y cwsmeriaid sydd wedi newid eu cyflenwyr o dan y trefniadau cyfredol yn isel, ei fod yn credu y byddai dileu'r trothwy o ran cystadleuaeth annomestig yn ysgogi'r farchnad.[18]

---

[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymateb i Ymgynghoriad WP 2 – Severn Trent Water*
[15] Ibid
[16] Ibid
[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p107, 21 Mawrth 2013
[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p127, 21 Mawrth 2013

26. Roedd cyflwyniad Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk ar Ddatganoli yn cynnig y dylai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â dŵr ymestyn hyd at y ffin ddaearyddol â Lloegr[19]. Pe bai hyn yn digwydd, byddai cwsmeriaid Severn Trent yn y Canolbarth yn dod o dan gyfrifoldeb y Cynulliad ac ni fyddent mwyach yn cael eu rheoleiddio o dan system Lloegr.

27. Mewn ymateb i'r syniad o weithredu o dan ddwy gyfundrefn reoleiddio wahanol yng Nghymru a Lloegr, dywedodd Mr Fairburn ei fod yn credu y byddai hynny'n cynyddu costau. Dyma a ddywedodd wrth y Pwyllgor:

> "purely from the operational perspective of the water industry, as a company that operates across the border, a single regulatory regime is obviously cheaper and easier and hence our customers' bills, particularly in Wales, are lower."[20]

## Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

28. Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yw'r corff annibynnol, anadrannol sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr dŵr a charthffosiaeth ar draws Cymru a Lloegr.

### *Safbwynt y Cyngor Defnyddwyr Dŵr*

29. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, rhestrodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr y materion a ystyriai ef fel un ai fanteision neu anfanteision peidio â chyflwyno cystadleuaeth i gwsmeriaid annomestig yng Nghymru. Credai y gallai bod â systemau gwahanol yng Nghymru a Lloegr achosi dryswch gyda chwsmeriaid yn Lloegr yn gallu newid ond, yng Nghymru, dim ond cwsmeriaid sy'n defnyddio 50Ml fyddai'n gymwys. Credai hefyd na fyddai busnesau sy'n gweithredu ar nifer o safleoedd yn y naill wlad a'r llall yn gweld y manteision llawn a fyddai ar gael i'r rhai nad ydynt ond yn gweithredu yn Lloegr. Ar yr ochr gadarnhaol, cydnabu'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr y gallai cwsmeriaid yng Nghymru gael eu gwarchod rhag y risgiau posibl o ehangu cystadleuaeth, megis camwerthu, gwybodaeth gyfeiliornus a dirywiad posib yn ansawdd y gwasanaeth.[21]

---

[19] Llywodraeth Cymru, Amdanom ni, Esbonio'r sefydliad, *Datganoli* [fel ar 9 Ebrill 2013]
[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p167, 21 Mawrth 2013
[21] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymateb i Ymgynghoriad WP 4 – y Cyngor Defnyddwyr Dŵr*

30. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Cyngor Defnyddwyr Dŵr hefyd yn cyfeirio at ymchwil yr oedd wedi'i wneud, a ddangosai:

- bod 84% o gwsmeriaid busnes mwy a 69% o fusnesau bach a chanolig (BBaCh) o blaid cystadleuaeth mewn egwyddor, ac mai pris yw'r prif reswm dros newid cyflenwr;
- y byddai 81% o gwsmeriaid busnes mawr yn disgwyl arbediad o 10% ar eu bil wrth newid cyflenwr tra byddai 51% o BBaCh yn newid cyflenwr pe gallent arbed dros 10%;
- mae gan BBaCh sydd wedi'u lleoli yng Nghymru farn fwy cadarnhaol am gwmnïau dŵr a charthffosiaeth na busnesau sydd wedi'u lleoli yn Lloegr, o safbwynt boddhad â'r gwasanaeth a gwerth am arian;
- hoffai'r rhan fwyaf o BBaCh weld rheolau cyson o ran cymhwystra cystadlu ar draws y ddwy wlad, yn enwedig i'r rhai sydd â safleoedd yn y naill wlad a'r llall;
- mae cyfran sylweddol o BBaCh yng Nghymru yn credu bod cystadleuaeth yn y diwydiant dŵr yn beth da iawn (64% o'i gymharu â 30% yn Lloegr) a chanddynt ddiddordeb mewn newid cyflenwr (46% o'i gymharu â 32% yn Lloegr).[22]

31. Ymhelaethodd Tony Smith, Prif Weithredwr y CD Dŵr, a Diane McCrea, Cadeirydd Pwyllgor Cymru'r CD Dŵr, ar y pwyntiau hyn yn ystod eu sesiwn tystiolaeth lafar. Dywedodd Mr Smith wrth y Pwyllgor:

> "The general point here, I think, is that business customers generally want choice. They compare water somewhat unfavourably with other things they buy, such as energy, because they do not have a choice."[23]

32. Er gwaethaf hyn, roeddent hefyd yn pwysleisio na fyddai dangos diddordeb mewn newid o reidrwydd yn golygu y byddai'r cwsmeriaid hynny i gyd yn newid eu cyflenwyr mewn gwirionedd. Dywedodd Ms McCrea wrth y Pwyllgor:

> "There is a slight difference between being interested in the idea of competition and being willing to switch. Customers would be willing to switch if they could see a considerable price reduction. As to

---

[22] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymateb i Ymgynghoriad WP 4 – y Cyngor Defnyddwyr Dŵr*
[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p223, 21 Mawrth 2013

whether it would deliver a 10% price reduction for them, the reality of that needs to be tested. We do not know at this stage. There is no evidence that there would be that level of switching."[24]

33. Crynhodd Tony Smith y manteision a'r canlyniadau negyddol i gwsmeriaid yn sgil cyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad ddŵr annomestig. Dywedodd y gallai cystadleuaeth roi pwysau ar gwmnïau presennol i wella'u gwasanaeth a darparu help ychwanegol i arbed dŵr, ond ar y llaw arall gallai cwsmeriaid gael eu siomi pe na bai lefel y gostyngiad yn eu biliau yn cyrraedd eu disgwyliadau.[25]

**Dŵr Dyffryn Dyfrdwy**

34. Cwmni wedi'i leoli yn Wrecsam, nad yw ond yn cyflenwi dŵr, yw Dŵr Dyffryn Dyfrdwy. Mae'n gyfrifol am gyflenwi dŵr i oddeutu 257,000 o gwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr, yn bennaf yng nghyffiniau Wrecsam, Llangollen a Chaer. Mae mwyafrif ei gwsmeriaid, tua 60%, yng Nghymru.

***Safbwynt Dŵr Dyffryn Dyfrdwy***

35. Cyfeiriodd dystiolaeth ysgrifenedig gan Ddŵr Dyffryn Dyfrdwy at gynnig yn ymgynghoriad pennu prisiau Ofwat i gyflwyno cymhelliad gwasanaeth i gwmnïau dŵr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru i hyrwyddo gwelliannau gwasanaeth yng Nghymru tebyg i'r rhai y disgwylir eu gweld yn y farchnad adwerthu annomestig yn Lloegr. Credai felly ei bod yn "debygol y bydd cwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru yn parhau i weld gwelliannau mewn lefelau gwasanaeth a phris er na fydd angen iddynt newid cyflenwyr er mwyn cael y buddion."[26]

36. Aeth ei dystiolaeth ysgrifenedig ymlaen i ddweud, "Bydd cyflwyno cystadleuaeth yn y sector dibreswyl yn cyflwyno'r posibilrwydd gwirioneddol o gwsmeriaid preswyl yn rhoi cymhorthdal i'r sector dibreswyl oni bai bod diogelwch tryloyw yn cael ei roi ar waith yn gynnar yn y broses."

37. Dywedodd Dŵr Dyffryn Dyfrdwy hefyd fod ganddo bryderon ynglŷn â chyflwyno cyfundrefnau gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Dywedodd y byddai rhaid iddo ddarparu a chyflenwi polisïau gwahanol i'w gwsmeriaid yn

[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p224, 21 Mawrth 2013
[25] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p226 – 228, 21 Mawrth 2013
[26] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymateb i Ymgynghoriad WP 1 –Dŵr Dyffryn Dyfrdwy*

dibynnu ar ba ochr i'r ffin y maent, a chredai y gallai hyn arwain at ddryswch i gwsmeriaid annomestig. [27]

## Ofwat

38. Ofwat yw rheoleiddiwr economaidd y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.

### *Safbwynt Ofwat*

39. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Ofwat ei fod o blaid cynigion Llywodraeth y DU i gyflwyno dewis i gwsmeriaid annomestig a mwy o fasnachu cyfanwerthol. Cyfeiriodd at "gyfoeth o dystiolaeth ddamcaniaethol ac empirig sy'n awgrymu bod dulliau seiliedig ar y farchnad yn fwy effeithiol na rheoleiddio er mwyn ysgogi effeithlonrwydd".[28] Dywedodd Ofwat hefyd ei fod yn credu, pe bai'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn y Bil Dŵr Drafft yn cael eu cyflwyno yng Nghymru, y byddent yn dod ag amryw o fanteision positif i gwsmeriaid yng Nghymru. Cyfeiriodd at brofiad yr Alban, lle mae dewis o ran cyflenwr adwerthu wedi cael ei gyflwyno eisoes i gwsmeriaid annomestig, gan ddweud ei fod wedi arwain at filiau is a defnyddio llai o ddŵr yn sgil gwell effeithlonrwydd dŵr.[29]

40. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ofwat ei fod wedi cyfrifyddu y byddai'r budd posibl i Gymru yn sgil cynnig dewis o gyflenwyr i gwsmeriaid busnes oddeutu £18 miliwn dros 3 blynedd.[30]

41. Mewn ymateb i'r awgrym y byddai cwmnïau dŵr efallai yn cynyddu'r costau i gwsmeriaid domestig er mwyn gwrthbwyso'r gostyngiadau a gâi eu cynnig i gwsmeriaid annomestig, dywedodd Keith Mason, Uwch Gyfarwyddwr Cyllid a Rhwydweithiau Ofwat, fod hynny'n rhywbeth y byddai rhai i Ofwat ei fonitro'n gryf iawn.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

42. Nid yw Llywodraeth Cymru'n rhannu barn Llywodraeth y DU ynglŷn â manteision posibl cystadleuaeth.

---

[27] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymateb i Ymgynghoriad WP 1 –Dŵr Dyffryn Dyfrdwy*
[28] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymateb i Ymgynghoriad WP 7 –Ofwat*
[29] Ibid
[30] Ibid

43. Yn ei Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Dŵr Strategol[31] (Rhagfyr 2011), dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod 'yn dal heb ein hargyhoeddi' o fanteision cystadleuaeth, ac:

> "Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn credu bod achos teilwng dros wahanu busnesau adwerthu a rhwydwaith yn y sector dŵr na chreu mwy o gystadleuaeth ar gyfer cwsmeriaid domestig."[32]

44. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru wedi newid:

> "Mae swyddogion wedi adolygu nifer o adroddiadau ac wedi cyfarfod Ofwat a Defra ar sawl achlysur i drafod sut gallai adwerthu a chystadleuaeth ar lefel uwch yn y diwydiant dŵr fod o fudd i Gymru. Er hynny, hyd yma, nid ydym wedi derbyn unrhyw enghreifftiau clir na thystiolaeth i ddangos y manteision o fwrw ymlaen â'r polisïau hyn yng Nghymru ar hyn o bryd."

45. Fodd bynnag, dywedai'r papur hefyd fod Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith ym maes diwygio'r farchnad:

> "Mae swyddogion yn comisiynu astudiaeth ar hyn o bryd i edrych ar fframwaith rheoleiddiol a deddfwriaethol presennol y diwydiant dŵr yng Nghymru (llinell sylfaen). Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i weld a yw'r drefn reoleiddiol gyfredol yng Nghymru yn addas i bwrpas. Byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau i'w profi yn erbyn y llinell sylfaen i sicrhau bod cwsmeriaid yng Nghymru'n cael y gwasanaeth gorau ac rydym yn parhau i annog ein cwmnïau dŵr i groesawu gofynion effeithlonrwydd. Byddai'n ofynnol i'r opsiynau hyn gynnwys gwell rheoliadau a chymhelliant a datrysiadau marchnad.
>
> "Byddwn hefyd yn manteisio ar gyfle i asesu pa ofynion a disgwyliadau gwasanaeth sydd gan gwsmeriaid busnes mewn perthynas â'r diwydiant dŵr yng Nghymru."[33]

---

[31] Llywodraeth Cymru, Pynciau, Yr Amgylchedd a Chefn Gwlad, Yr Amgylchedd – Diogelu ac Ansawdd, Dŵr, *Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Dŵr Strategol 2011*, [fel ar 18 Ebrill 2013]

[32] *ibid*

[33] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *E&S(4)-13-13 papur 1,* 1 Mai 2013

46. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd Alun Davies AC, y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, nad yw Llywodraeth Cymru "am ddilyn yr un llwybr â'r Llywodraeth yn San Steffan o or-ddefnyddio'r gystadleuaeth y tu mewn i'r system cyflenwi dŵr".[34] Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud nad oedd yn deall sut yr oedd Ofwat wedi cyfrifyddu'r £18miliwn o arbedion posibl y dywedai y gellid eu cyflawni drwy gyflwyno cystadleuaeth. Dyma a ddywedodd y Gweinidog:

> "In terms of the figure of £18 million that Ofwat has published; you are absolutely right. We do not understand where that figure has come from and we have not seen any calculations as to how that figure was reached."[35]

47. Aeth y Gweinidog ymlaen wedyn i wrthod yr honiadau a wnaed gan Severn Trent Water ac Ofwat y byddai rhoi 2 gyfundrefn reoleiddio wahanol ar waith yn fwy costus i gwsmeriaid yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog:

> "I do not accept that statement. I have not seen any evidence to sustain it— ....I do not know and nobody in this room, in Ofwat, in Severn Trent Water or in Welsh Water knows what the nature of any differing regulatory regimes may be, because they have not been designed or legislated for at present. So, trying to sum up the costs of something that we do not understand is not possible. I do not accept that analysis.... I will not accept arguments from regulators that we cannot design a different policy in Wales because it is inconvenient for them."[36]

48. Cydnabu'r Gweinidog a'i swyddogion fod rhai busnesau efallai o blaid yr egwyddor o gyflwyno cystadleuaeth i gychwyn, ond credai fod y model busnes sydd ar waith gan Ddŵr Cymru yn cynnig mwy o fanteision, a bod cwsmeriaid yn ei werthfawrogi unwaith y maent yn ei ddeall. Dywedodd Prys Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd:

> "The initial question was: are people supportive of more competition? Yes, people are supportive of the principle, but if you look down into the detail of the study, you find that once people have understood

[34] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p5, 1 Mai 2013
[35] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p7, 1 Mai 2013
[36] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p19 a 21, 1 Mai 2013

the model, particularly the Glas Cymru model that currently operates in Wales, and they have seen the potential savings that they might make—the potential savings from introducing competition in the retail area are quite small—their initial view of competition being a very positive thing is significantly tempered."[37]

49. Mewn ymateb i'r mater a godwyd gan Ddŵr Cymru y gallai cynnig disgownt i gwsmeriaid annomestig arwain at gostau uwch i gwsmeriaid domestig, dywedodd y Gweinidog ei fod yn rhannu'r pryderon hynny. Dywedodd:

> "we are talking to the regulator and the UK Government to ensure that Welsh domestic customers are protected from, effectively, subsidising competition in the non-domestic market. We have some concerns about the situation in the Severn Trent area, which we have discussed with the United Kingdom Government."[38]

50. Ychwanegodd Prys Davies:

> "It is a concern that we share with regard to the way in which the non-domestic market reforms might work. Their impact on domestic customers, particularly in Wales, needs to be considered and looked at in more detail."[39]

**Barn y Pwyllgor**

51. Nodwn y costau amcangyfrifedig sydd ynghlwm wrth sefydlu'r systemau sy'n ofynnol i gyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad annomestig a'r potensial i gostau o'r fath gynyddu. Nodwn hefyd y ffigurau a ddyfynnwyd gan Ofwat o ran arbedion i gwsmeriaid yn sgil cyflwyno cystadleuaeth o'r fath. O ystyried y potensial i'r costau sefydlu gynyddu a'r ansicrwydd ynglŷn â'r gwir arbedion a allai ddod i ran cwsmeriaid, nid ydym wedi'n hargyhoeddi o hyd o fanteision ariannol cyflwyno cystadleuaeth i'r system. Credwn fod y model busnes 'dielw' sydd ar waith gan Ddŵr Cymru yn llwyddiannus ac yn cael ei gynnal er lles pennaf y bobl y mae'n eu gwasanaethu, felly ni chredwn y byddai'r cysyniad o gyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad yn gam cadarnhaol i bobl Cymru.

---

[37] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p34, 1 Mai 2013
[38] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p47, 1 Mai 2013
[39] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p48, 1 Mai 2013

52. Clywsom hefyd bryderon ynglŷn â'r potensial i'r baich ariannol o gynnig gostyngiadau i gwsmeriaid annomestig gael ei drosglwyddo i gwsmeriaid domestig. Mae'r posibilrwydd o gynnydd o'r fath i gwsmeriaid domestig yn bryder difrifol inni, o ystyried y nifer fawr o gartrefi yng Nghymru sydd eisoes yn byw mewn tlodi dŵr.

53. Dywedwyd wrthym am botensial y Bil Dŵr Drafft i sbarduno arbedion dŵr a gwireddu gwelliannau amgylcheddol, er na chlywsom dystiolaeth gref i ddangos sut y byddai modd gwireddu hyn. Clywsom gan Ddŵr Cymru ei fod yn cyrraedd lefelau ansawdd dŵr o 99.9% a mesurau amgylcheddol yn gyson o dan yr amgylchiadau presennol, a bod ei lefelau o ddŵr a gollir yn cael eu rheoli, felly nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y ddadl y byddai cystadleuaeth yn arwain at fwy o welliannau.

54. Rydym yn sylweddoli bod llawer o fusnesau o blaid yr egwyddor o allu newid eu cyflenwr dŵr os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ond dywedwyd wrthym y byddent yn disgwyl gweld arbedion sylweddol cyn y caent eu perswadio i newid cyflenwr yn ymarferol. Nid yw'n glir faint o arbedion y gallai busnes ddisgwyl eu sicrhau, felly rydym yn pryderu na fyddai'r ymdrechion a gâi eu gwneud i'w galluogi i newid cyflenwyr yn arwain at y canlyniad y maent yn ei ddymuno.

55. Clywsom dystiolaeth fod cwsmeriaid yng Nghymru yn gyffredinol yn fodlon â'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig iddynt gan eu cyflenwyr dŵr. Fel Pwyllgor, byddem yn bryderus iawn pe bai llai o bwyslais yn cael ei roi ar y lefel o wasanaeth cwsmeriaid y mae cwmni'n ei chynnig i'w gwsmeriaid presennol, yn yr ymdrech i leihau'r costau y gallai eu cynnig i gwsmeriaid newydd.

56. Clywsom lawer o ddadleuon o blaid ac yn erbyn ymestyn y darpariaethau yn y Bil Dŵr Drafft i gyflwyno cystadleuaeth i gwsmeriaid annomestig yng Nghymru. Ar ôl pwyso a mesur yr holl dystiolaeth, nid ydym wedi ein hargyhoeddi o hyd y byddai cyflwyno diwygiadau o'r fath yng Nghymru yn arwain at ostwng costau i gwsmeriaid, gan sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd, gwella safonau amgylcheddol a chynnal lefelau uchel o wasanaeth cwsmeriaid. Nodwn nad yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn bwriadu cyflwyno cystadleuaeth i'r diwydiant dŵr yng Nghymru, a byddem yn argymell parhau i droedio'n ofalus nes bydd tystiolaeth gryfach ar gael i ddangos manteision cystadleuaeth i gwsmeriaid Cymru.

## 2. Fforddiadwyedd dŵr

57. Mae gallu fforddio'r dŵr y maen nhw'n ei ddefnyddio yn fater sy'n effeithio ar filoedd o bobl yng Nghymru. 'Tlodi dŵr' yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i gyfeirio at gartrefi lle mae'r costau dŵr yn cyfateb i rhwng 3% a 5% o'u hincwm. Dywedodd Nigel Annett, Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru, wrth y Pwyllgor yr amcangyfrifir bod 14% o'r cartrefi yn ardal Dŵr Cymru, rhwng 150,000 a 160,000, yn gwario mwy na 5% o incwm y cartref ar eu biliau dŵr a charthffosiaeth.[40]

58. Drwy ei Rhaglen Lywodraethu (Mai 2012), ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithredu fel a ganlyn i wneud dŵr yn fforddiadwy:

- datblygu cynigion am system codi tâl deg, wedi'i seilio ar argymhellion Adolygiad Walker;
- darparu Canllaw Tariffau Cymdeithasol (a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2013);[41]
- ymgynghori ynghylch Rheoliadau Dyledion Drwg; a
- chyhoeddi Strategaeth Ddŵr i Gymru, i ymgynghori yn ei chylch yn hydref 2012.[42]

**Adolygiad Walker (2009)**

59. Cyd-gomisiynwyd Adolygiad Walker gan Lywodraethau'r DU a Chymru yn 2008 i adolygu'r trefniadau i godi tâl ar gartrefi am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr, a defnyddio mesuryddion. Arweiniwyd yr adolygiad gan Anna Walker, Prif Weithredwr y Comisiwn Gofal Iechyd ar y pryd.[43]

60. Argymhellodd yr adolygiad gamau y gellid eu cymryd i sicrhau bod system codi tâl gynaliadwy a theg ar waith, yn cynnwys newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol. Daeth yr adroddiad terfynol, yn 2009, i'r prif gasgliadau isod:

---

[40] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p18, 21 Mawrth 2013

[41] Llywodraeth Cymru, Pynciau, Yr Amgylchedd a Chefn Gwlad, Yr Amgylchedd – Diogelu ac Ansawdd, Dŵr, *Canllaw tariffau cymdeithasol* [fel ar 14 Mawrth 2013]

[42] Llywodraeth Cymru, Amdanom ni, Rhaglen Lywodraethu, Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Adroddiad Cynnydd*, p35-36 [fel ar 14 Mawrth 2013]

[43] Defra, Publications, Environment, *The independent review of charging for household water and sewerage services (Walker review)* [fel ar 14 Mawrth 2013]

- Mae angen i'r system codi tâl gymell pobl i ddefnyddio dŵr yn effeithlon i wneud yn siŵr y bydd yna gyflenwadau cynaliadwy i'r dyfodol. Mae angen hefyd i ddŵr fod yn fforddiadwy i bawb, yn enwedig y rhai ar incwm isel.
- Mae'r drefn gyfredol o godi tâl am y gwasanaethau hyn o dan bwysau. I gwsmeriaid nad oes ganddynt fesurydd (65 y cant o gwsmeriaid), nid oes unrhyw gymhelliad i ddefnyddio dŵr yn effeithlon. Mae cwsmeriaid yn dewis cael mesurydd os ydynt yn credu y gallan nhw'n bersonol elwa drwy wneud hynny. Mae hyn yn golygu bod y traws-gymhorthdal yn y system gyfredol sydd wedi'i seilio ar werth trethiannol yn ymddatod, fel bod y rhai sy'n dal heb fesurydd (y rhai ar incwm isel yn aml) eisoes yn cael biliau uwch a byddant yn gweld eu biliau'n codi ymhellach hyd yn oed os na fydd y biliau cyfartalog yn newid.
- Codi tâl yn ôl faint o ddŵr a ddefnyddir (sy'n golygu defnyddio mesuryddion) yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gymell pobl i ddefnyddio dŵr yn effeithlon. Ond mae mesuryddion yn achosi costau ychwanegol. Mae angen arwain y newid i fesuryddion i sicrhau bod y costau llawn yn cael eu cadw cyn ised â phosibl. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai Ofwat ddarparu'r arweiniad hwn, o fewn fframwaith polisi cyffredinol gan lywodraeth. Mae hefyd yn argymell y dylai fod methodoleg y cytunwyd arni i edrych ar gostau a buddion defnyddio mesuryddion; ac y bydd defnyddio mesuryddion yn gost-effeithiol yn gyffredinol lle mae dŵr yn brin neu lle mae yna gyfyngiadau capasiti. Hefyd, dylai mesurydd gael ei osod fel mater o drefn pan fydd meddiannydd eiddo'n newid a dylai mesurydd gael ei osod i gwsmeriaid sy'n defnyddio llawer o ddŵr o ddewis – lle defnyddir mwy o ddŵr nag yn y rhan fwyaf o gartrefi, ond lle nad yw'r meddiannydd yn talu mwy am y defnydd ychwanegol hwnnw o dan y system gwerth trethiannol.
- Mae'r cymorth i deuluoedd ar incwm isel drwy'r system o godi tâl ar sail gwerth trethiannol yn cael ei dargedu'n wael iawn, gan fod gwerth trethiannol wedi dyddio. Mae hefyd yn ymddatod wrth i ragor o gwsmeriaid ddewis cael mesurydd. Mae angen rhyw drefn newydd ac mae'r adroddiad yn argymell pecyn o fesurau cymorth sy'n cynnwys cadw Watersure (cynllun sy'n pennu uchafswm bil) a disgowntiau i gwsmeriaid ar incwm isel sydd â mesurydd. Yn ôl yr adolygiad bydd

hyn yn bwysig os nad yw'r newid i ddefnyddio mesuryddion i achosi problemau fforddiadwyedd i'r rhai ar incwm isel.[44]

61. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynglŷn ag argymhellion Adolygiad Walker yn 2011, gan ganolbwyntio'n benodol ar opsiynau i ddarparu gwell cymorth i deuluoedd bregus, ar incwm isel, annog mwy o effeithlonrwydd wrth ddefnyddio dŵr ac opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol i ddefnyddio mesuryddion.[45] Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfrannu at waith Llywodraeth Cymru yn datblygu'r Strategaeth Ddŵr newydd i Gymru, y byddir yn ymgynghori yn ei chylch yn ddiweddarach yn 2013.

### Mesuryddion dŵr

62. Mesuryddion dŵr yw'r ffordd fwyaf cywir o fesur faint o ddŵr y mae cartref yn ei ddefnyddio ac mae'n galluogi'r cwmnïau dŵr i godi tâl ar y cartrefi hynny am faint yn union o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio yn hytrach na dibynnu ar y dull traddodiadol o godi tâl ar deuluoedd ar sail gwerth trethiannol eu tŷ. Dywedodd Nigel Annett wrth y Pwyllgor fod gan tua thraean o gwsmeriaid Dŵr Cymru fesurydd[46] , a nododd Andrew Fairburn yr un ganran o ran cwsmeriaid Severn Trent Water.[47] Eglurodd cynrychiolwyr y cwmnïau dŵr y gallai cwsmeriaid ofyn am fesurydd dŵr am gyfnod prawf o hyd at flwyddyn, a bod modd tynnu'r mesurydd yn ystod y cyfnod hwnnw, ond ar ôl i'r cyfnod prawf ddod i ben byddai'r mesurydd yn aros. Ni all cwsmeriaid sydd â mesurydd yn eu cartref ar hyn o bryd ofyn am gael ei wared. Clywsom ddadleuon o blaid ac yn erbyn ymestyn y defnydd o fesuryddion dŵr i ragor o gartrefi ar draws Cymru.

### *Yr effaith ar filiau dŵr*

63. I lawer, byddai'r cysyniad o gael mesurydd dŵr a gorfod talu felly yn ôl yr union gyfaint o ddŵr a ddefnyddir yn gam cadarnhaol, yn enwedig i gartrefi sydd â llai o bobl yn byw ynddynt, a fyddai'n debygol o ddefnyddio llai o ddŵr. I deuluoedd mwy, fodd bynnag, gallai cael mesurydd olygu cynnydd yn eu costau dŵr.

64. Roedd y dystiolaeth a glywsom gan Ddŵr Cymru a Severn Trent Water yn glir. Cytunai'r ddau gwmni nad ymestyn y defnydd o fesuryddion dŵr

---

[44] Defra, Publications, Environment, *The independent review of charging for household water and sewerage services (Walker review)* [fel ar 14 Mawrth 2013]
[45] Llywodraeth Cymru, Ymgynghori, *Ymgynghoriad ar Adolygiad Walker o daliadau a godir am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth cartrefi* [fel ar 14 Mawrth 2013]
[46] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p33, 21 Mawrth 2013
[47] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p149, 21 Mawrth 2013

yw'r ateb i broblemau dŵr yng Nghymru.  Dywedodd Nigel Annett wrthym nad yw Dŵr Cymru yn frwd o blaid defnyddio mwy ar fesuryddion.  Mae'r cwmni'n rhoi dewis i bobl, ond nid yw'n hyrwyddo mesuryddion.  Nid rhoi pawb ar fesuryddion yw'r ateb, yn enwedig gan fod pryderon ynglŷn â biliau dŵr.[48]

65.  Eglurodd Mr Annett nad mesuryddion dŵr yw'r opsiwn rhataf i gwsmeriaid bob amser.  Dywedodd:

> "it is important for us all to remind people that it is not a cost-free option.  Meters are a very expensive way to collect the water bill.  They add about £50 to £70 to the bill, just for the meter itself, whereas collecting water bills on the basis of an unmeasured charge is very cheap."[49]

66.  Eglurodd Mike Davis, Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoleiddio Dŵr Cymru, ymhellach y costau ychwanegol y byddai cwsmeriaid ar fesuryddion dŵr yn eu hwynebu.  Dywedodd:

> "There is the cost of actually installing the meter, and that is around £250.  However, that is obviously not charged to the customer at the time.  It is recovered over the life of the meter, which is around 12 years.  The other element of the ongoing cost is actually reading the meters and then processing those meter readings and actually producing the bills from them.  That is the additional ongoing cost of metering as well as the capital costs."[50]

67.  Cydnabu Mr Davis y gallai'r rhai nad ydynt yn defnyddio llawer o ddŵr elwa drwy fod ar fesurydd dŵr, ond o gymharu'r costau a wynebir gan gartrefi sy'n defnyddio tua'r un faint o ddŵr, byddai'r rhai ar fesurydd yn talu mwy na'r rhai sydd heb fesurydd.  Dywedodd:

> "In terms of the charges that we make to customers, if the unmeasured customer and the metered customer are using the same amounts of water, the metered customer will be charged between

[48] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p34, 21 Mawrth 2013
[49] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p33, 21 Mawrth 2013
[50] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p51, 21 Mawrth 2013

£55 and £70 more than the unmeasured customer. That is set in tariffs that have been approved by the regulator."[51]

68. Yn dyngedfennol, gorffennodd Mr Davis drwy ddweud:

"If metering is going to become an area of public policy, an awful lot of data need to be collected to understand the impact." [52]

69. Cytunodd cynrychiolwyr o Ddŵr Cymru a Severn Trent Water fod daearyddiaeth Cymru'n golygu nad yw'n neilltuol o addas ar gyfer mesuryddion dŵr. Dywedodd Nigel Annett eu bod yn ddrud i'w darparu mewn ardaloedd gwledig, tra maent yn gymharol rad i'w darparu mewn ardaloedd trefol. Cytunodd Andrew Fairburn, Pennaeth Cysylltiadau Llywodraeth Severn Trent Water, gan ddweud:

"What are you trying to do? If it is to reduce prices, I am not convinced that it is the best way forward, certainly not in our area, given our geography and environmental conditions."[53]

70. Roedd Diane McCrea, Cadeirydd Pwyllgor Cymru'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, yn glir y byddai bod ar fesurydd dŵr o fantais i rai cwsmeriaid ac anfantais i eraill. Dywedodd fod y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cynghori cwsmeriaid i dreialu mesurydd dŵr i weld a yw eu costau'n gostwng ai peidio ac, os nad ydynt, eu bod yn newid yn ôl o fewn y cyfnod prawf o flwyddyn. Dywedodd Tony Smith, Prif Weithredwr y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, wrthym fod rhoi'r dewis i gwsmeriaid pa un a ydynt am gael mesurydd dŵr yn beth da, ond fod gwneud mesuryddion yn orfodol yn fater gwahanol. Cytunodd â'r tystion eraill y byddai teuluoedd mawr yn gweld cynnydd yn eu biliau dŵr pe baent yn newid i fesurydd dŵr. Dywedodd:

"The research that we have done of customers suggests that customers want a choice in this matter. When you move toward compulsory metering, it is a different matter, and a large percentage of customers, probably about a third of customers, would be strongly opposed to it. It is likely to have a big impact in particular on those customers who are in low rateable value, large households. Whereas some customers can benefit, customers in those circumstances—low

[51] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p54, 21 Mawrth 2013
[52] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p58, 21 Mawrth 2013
[53] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p149, 21 Mawrth 2013

rateable value, large households—could have a price increase overnight of £200."[54]

### *Yr effaith o ran defnyddio llai o ddŵr*

71. Yn ogystal â'r potensial i ostwng costau i rai cwsmeriaid, cred rhai mai mantais arall defnyddio mwy ar fesuryddion dŵr yw y bydd llai o ddŵr yn cael ei ddefnyddio – y syniad yw y bydd y rhai ar fesuryddion yn ddefnyddio llai o ddŵr er mwyn gostwng eu costau, a byddai hynny'n cael effaith gronnus ar faint o ddŵr a ddefnyddir. Y dystiolaeth a glywsom ynglŷn â hyn yw nad yw'r sefyllfa mor syml â hynny mewn gwirionedd.

72. Dywedodd Nigel Annett wrth y Pwyllgor, er bod mesurydd efallai yn effeithio ar faint o ddŵr y mae cartref yn ei ddefnyddio yn y tymor byr, na fyddai'r effaith yn cael ei chynnal bob amser. Dywedodd:

> "when meters are installed, there is a short-term impact on water demand, but because water use is non-discretionary, the impact of metering over three, four or five years will fall away. Water costs about £1.50 per tonne to supply. It is very cheap and inexpensive, and when people realise that—those who can afford to pay their water bill in the first place—they have a limited incentive to reduce their consumption to affect their bill."[55]

73. Cyfeiriodd Mr Annett yn ddiweddarach at y treialu mesuryddion dŵr ar Ynys Wyth yn ystod y 1990au, ac er gwaethaf gostyngiad cychwynnol yn faint o ddŵr a gâi ei ddefnyddio, cynyddodd y defnydd yn y blynyddoedd dilynol. Dywedodd:

> "On the Isle of Wight experiment, which goes back 15 years, in the first instance, demand for water fell by between 6% and 8%, so that was the first impact. However, over the subsequent years, it trended back up to the old levels of usage."[56]

74. Cytunodd y dystiolaeth a gawsom gan Severn Trent Water na fyddai ymestyn y defnydd o fesuryddion dŵr o reidrwydd yn arwain at ddefnyddio llai o ddŵr. Dywedodd Andrew Fairburn wrthym:

---

[54] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p235, 21 Mawrth 2013

[55] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p38, 21 Mawrth 2013

[56] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p59, 21 Mawrth 2013

> "If it is to reduce consumption, it comes back to this point: we have one of the lowest, if not the lowest, uptake of meters, which is about a third, yet we have the lowest per capita consumption..... as a general principle, if metering is to reduce consumption, we have not seen the evidence on that."[57]

75. Aeth Mr Fairburn ymlaen i ychwanegu ei fod yn credu bod ffyrdd mwy effeithiol o leihau faint o ddŵr a ddefnyddir na gosod mesuryddion dŵr. Dywedodd:

> "Meters cost money. I would suspect that, in some places, they might be appropriate, but most of the time there is a more efficient way of helping customers to reduce their own consumption: fitting water efficient taps and shower heads and changing the flushes on toilets can all make a very significant, easy difference, which can make the cost a lot cheaper."[58]

76. Roedd y dystiolaeth a glywsom gan Keith Mason, Uwch Gyfarwyddwr Cyllid a Rhwydweithiau Ofwat, yn anghytuno rhywfaint â'r hyn a ddywedodd y cwmnïau dŵr wrthym. Er ei fod yn cydnabod y gallai mesuryddion dŵr olygu taliadau ychydig yn uwch i rai cwsmeriaid, credai fod eu manteision yn fwy. Dywedodd Mr Mason wrthym mai mesuryddion dŵr yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fesur faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio a bod gallu mesur defnydd yn fanteisiol i gwmnïau dŵr a chwsmeriaid. Dywedodd wrthym:

> "measuring consumption and knowing how much you use enables people to make decisions, and both domestic customers and the company have greater knowledge of consumption, because at the moment they rely quite a lot on estimates. So, if someone is unmetered, they have to estimate how much water their unmeasured stock is using. If you do not know exactly how much you are using, it is much more difficult to take decisions about where you need to take water from and how you might use it. So, it has to be a combination of things, but metering is the best option overall. However, I agree that there are costs associated with that.... I still believe that metering is the best way of measuring consumption. It is a very

[57] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p149 – 150, 21 Mawrth 2013
[58] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p164, 21 Mawrth 2013.

effective way of driving efficiency, but it has to be balanced against cost and affordability."[59]

**Safbwynt Llywodraeth Cymru**

77. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn 2011 ar oblygiadau senarios defnyddio mesuryddion yng Nghymru, a bod yr ymatebion o blaid hynny yn gyffredinol am ei fod yn hyrwyddo tegwch ac effeithlonrwydd.[60] Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym fod angen mwy o ddealltwriaeth o effaith mesuryddion dŵr ar filiau cwsmeriaid, fel nad yw pobl dlawd yn cael eu cosbi. Dywedodd:

> "what we do not want to do is to introduce that system and see a negative impact on some of the poorest people in the country. So, we need to understand, first of all, what that impact will be, and then, if we do wish to move to a metering system, how we introduce a social tariff to ensure that people are not penalised because of that, and then how we would introduce such a system in terms of the cost of delivering that infrastructure and investment, which Welsh Water has calculated and has been able to describe in some detail. I accept Welsh Water's analysis on that. So, at the moment, it is something that we are still considering and trying to understand in more detail."[61]

78. Gorffennodd y Gweinidog drwy ddweud ei fod wedi ymrwymo i sicrhau system talu am ddŵr sy'n deg i bob math o gartref. Dywedodd:

> "My concern as a Minister is to ensure that we have a system of payment for water that is transparent and fair for everyone—the single pensioner household, as well as the large family. It should also be fair in terms of people's economic situation. Therefore, that is the approach that we will take, and those are the principles that will underpin that approach."[62]

[59] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p251 – 253, 17 Ebrill 2013
[60] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *E&S(4)-13-13 papur 1,* 1 Mai 2013
[61] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p45, 1 Mai 2013
[62] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p90, 1 Mai 2013

## Barn y Pwyllgor

79. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth glir na fyddai ymestyn y defnydd o fesuryddion dŵr i bob cartref yn bolisi addas i'w roi ar waith yng Nghymru. Rydym yn derbyn bod y cysyniad o ddefnyddio mesuryddion yn deg mewn egwyddor, gan ei fod yn golygu codi tâl ar gwsmeriaid am y dŵr y maent yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai llawer o bobl yng Nghymru ar eu colled yn ariannol pe bai ganddynt fesurydd, felly byddem yn pryderu'n fawr am yr effaith y gallai biliau uwch ei chael ar deuluoedd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr.

80. Nodwn hefyd y gallai rhai cartrefi, lle mae llai o bobl yn byw, elwa o gael mesurydd dŵr wedi'i osod, felly rydym yn croesawu'r ffaith fod iddynt y dewis o dreialu mesurydd am flwyddyn.

81. Ni chlywsom unrhyw dystiolaeth glir y byddai mesuryddion dŵr yn arwain at ddefnyddio llai o ddŵr yng Nghymru yn barhaus. Sylweddolwn fod mesuryddion yn gallu bod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â lefel y defnydd mewn rhai ardaloedd sydd â lefelau poblogaeth uchel iawn, lle gall y cyflenwad dŵr fod yn brin. Fodd bynnag, yng Nghymru rydym yn lwcus fod gennym adnoddau dŵr digonol ac nad ydym felly mewn sefyllfa lle mae rhaid inni ystyried defnyddio mesuryddion drwy orfodaeth am y rheswm hwnnw. Nid yw hynny'n golygu y gallwn fod yn hunanfodlon ynglŷn â'n cyflenwadau dŵr. Rydym yn croesawu'r cynlluniau y soniodd Dŵr Cymru a Severn Trent Water amdanynt i addysgu pobl am bwysigrwydd cadw dŵr a chredwn y dylai'r cwmnïau dŵr a Llywodraeth Cymru wneud mwy o waith o'r fath.

82. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol i fagu gwell dealltwriaeth o effaith ymestyn mesuryddion dŵr cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pa un i'w cyflwyno yng Nghymru. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried yr effaith y gallai hyn ei chael ar deuluoedd tlawd, a phe bai'n mabwysiadu polisi i ymestyn y defnydd o fesuryddion dŵr yn y dyfodol credwn y dylai tariffau priodol gael eu cyflwyno law yn llaw â hynny i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn cael eu cosbi.

## Cymorth i gwsmeriaid tlawd

83. Gan fod tlodi dŵr yn broblem wirioneddol i filoedd o bobl yng Nghymru, dywedodd y cwmnïau dŵr wrthym am y cynlluniau sydd ganddynt hwy eu hunain i helpu'r rhai sydd mewn angen. Dywedodd Nigel Annett wrthym fod Dŵr Cymru'n cynnig cymorth i 50,000 o gartrefi drwy nifer o dariffau cymorth. Eglurodd fod bil cyfartalog Dŵr Cymru yn £400, a bod tariff Cymorth Dŵr Cymru, sydd ar gael i gwsmeriaid ar incwm isel sy'n derbyn

budd-daliadau neilltuol, ychydig dros hanner hynny ar £220.[63] Ychwanegodd Mr Annett fod Dŵr Cymru wedi sefydlu tîm arbennig yn ei ganolfan galwadau yng Nghaerdydd i helpu cwsmeriaid i wneud cais am y tariffau arbennig.

84. Disgrifiodd Andrew Fairburn y gwaith y mae Severn Trent Water wedi bod yn ei wneud mewn partneriaeth â Chyngor Ar Bopeth (CAB), lle mae'n dyfarnu grant i CAB ac wedyn yn cyfeirio cwsmeriaid y mae angen cymorth arnynt at CAB i gael cyngor ariannol ehangach. Credai fod cynnig cyngor o'r fath yn dod â manteision ariannol tymor hwy i gwsmeriaid, o'i gymharu â gostwng eu biliau dŵr.[64]

### *Canllawiau Tariffau Cymdeithasol*

85. Mae'n ofynnol yn ôl *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau i'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth ac Ofwat ar gynnwys tariffau cymdeithasol yn eu cynlluniau codi tâl. Ar 1 Mawrth 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i alluogi cwmnïau dŵr i ddatblygu tariffau cymdeithasol i gynorthwyo'r rhai sy'n cael yr anhawster mwyaf i dalu eu biliau.[65] Mae'r canllawiau hyn yn pennu'r fframwaith er mwyn i gwmnïau dŵr ddatblygu tariff cymdeithasol os ydynt yn dewis gwneud hynny. Mae'r canllawiau'n cynnwys beth i'w ystyried wrth benderfynu a ddylai un grŵp o gwsmeriaid sybsideiddio grŵp arall. Mae hefyd yn egluro beth y dylai Ofwat ei ystyried wrth gymeradwyo cynlluniau codi tâl.

86. Dywedodd Nigel Annett wrth y Pwyllgor fod y canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn fuddiol, ond mai'r anhawster gyda thariffau cymdeithasol yw bod cwsmeriaid sy'n gallu fforddio talu yn traws-sybsideiddio'r cwsmeriaid tlotaf. Ychwanegodd y gallai fod yn anodd cael cymeradwyaeth y rheoleiddiwr i dariffau cymdeithasol, gan fod y rheoleiddiwr wedi bod yn amharod i gefnogi ymestyn traws-gymorthdaliadau yn y gorffennol.[66] Ychwanegodd Mr Annett ei fod yn bryderus hefyd ynglŷn â'r gofyniad y dylai unrhyw draws-gymorthdaliadau fod yn dderbyniol i'r cwsmeriaid. Cyfeiriodd at arolygon blaenorol a oedd wedi dangos nad yw cwsmeriaid cefnog bob amser yn barod i dalu mwy fel cymhorthdal i gwsmeriaid tlawd. Credai y byddai methu â dangos cefnogaeth o du

[63] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p18 – 20, 21 Mawrth 2013
[64] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p109, 21 Mawrth 2013
[65] Llywodraeth Cymru, Pynciau, Yr Amgylchedd a Chefn Gwlad, Yr Amgylchedd – Diogelu ac Ansawdd, Dŵr, *Canllaw tariffau cymdeithasol* [fel ar 14 Mawrth 2013]
[66] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p29, 21 Mawrth 2013

cwsmeriaid yn rheswm i Ofwat beidio â chymeradwyo tariffau cymdeithasol.[67] I gloi, dywedodd y byddai Dŵr Cymru yn gofyn am gefnogaeth gadarnach gan Lywodraeth Cymru i gymhorthdal o hyd at 2.5%.[68]

87. Dywedodd Andrew Fairburn wrthym mai'r hyn a wna Severn Trent Water yn gyffredinol yw gofyn i gwsmeriaid faint o draws-gymhorthdal ddylai gael ei godi. Dywedodd eu bod wedi canfod bod cwsmeriaid yn fodlon â thraws-gymhorthdal o 1%.[69]

88. Roedd y cynrychiolwyr o'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn croesawu canllawiau Llywodraeth Cymru ar dariffau cymdeithasol, ond ychwanegasant na fyddai'r swm a gâi ei gasglu yn ddigon i gau'r bwlch a grëir gan y rhai nad ydynt yn gallu talu'u biliau. Dywedasant hefyd y byddai angen cefnogaeth cwsmeriaid i draws-gymorthdaliadau a bod cefnogaeth Llywodraeth Cymru'n bwysig iawn i roi dilysrwydd i'r cwmni wrth iddo orfodi cwsmeriaid eraill i dalu tariffau cymdeithasol.[70]

89. Dywedodd Keith Mason o Ofwat wrthym nad oedd o fewn cylch gwaith Ofwat i ddweud a ddylai rhai cwsmeriaid draws-sybsideiddio eraill, ond dywedodd y byddai Ofwat yn cymeradwyo tariffau o'r fath os mai dyna bolisi'r Llywodraeth. Dywedodd:

> "We have said that, if the Government was to say that social tariffs were the right policy to adopt and was to give some clear guidelines on the extent to which there should be cross-subsidy, we would support that and would approve tariffs where we would need to approve them."[71]

**Barn y Pwyllgor**

90. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r canllawiau ar dariffau cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn sylweddoli nad yw'r cysyniad o draws-sybsideiddio eraill yn ennyn ffafr ymysg y cwsmeriaid i gyd, ond gobeithio y byddai pennu uchafswm cymhorthdal o 2.5% fel a gynigir yn y

---

[67] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p31, 21 Mawrth 2013
[68] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p31, 21 Mawrth 2013
[69] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p138, 21 Mawrth 2013
[70] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p200 – 202, 21 Mawrth 2013
[71] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p158, 17 Ebrill 2013

canllawiau yn cyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â'r diffyg heb roi baich rhy drwm ar y rhai a fyddai'n talu mwy.

**Dyledion Drwg**

91. Mae dyledion drwg yn fater allweddol o ran fforddiadwyedd dŵr yng Nghymru ac, fel y nododd Llywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae'n ychwanegu £20 ar fil pob cwsmer dŵr.[72] Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, amcangyfrifai Ofwat fod £15 yn cael ei ychwanegu at bob bil oherwydd dyledion drwg a nodai fod gan Ddŵr Cymru gostau uchel o ran dyledion drwg o'i gymharu â chwmnïau dŵr eraill.[73] Mewn tystiolaeth lafar dywedodd Ofwat fod nifer o ffactorau'n gallu achos lefelau uchel o ddyledion drwg, yn cynnwys effeithlonrwydd cwmni wrth gasglu arian neu broffil incwm ei sylfaen cwsmeriaid.[74]

92. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y CD Dŵr ei fod yn edrych ymlaen at weld Llywodraeth Cymru'n troi darpariaethau casglu dyledion *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Adran 45)* yn ddeddf[75]. Byddai hyn yn caniatáu i gwmnïau dŵr gael gwybodaeth am feddianwyr eiddo preswyl nad ydynt yn berchenogion.[76] Ymhelaethodd cynrychiolwyr y CD Dŵr ar hyn mewn tystiolaeth lafar, gan ddweud y byddai'n ei gwneud yn haws canlyn dyledion un ai oddi wrth denantiaid sydd wedi dianc neu oddi wrth y landlordiaid a fyddai'n gyfrifol.

93. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd fod Llywodraeth Cymru'n gweithio tuag at ddeddfu darpariaethau casglu dyledion *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2012*. Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru'n datblygu ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau Dyledion Drwg, i'w gyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn, i roi dyletswydd ar landlordiaid i ddarparu manylion eu tenantiaid i'w cwmni dŵr neu wynebu gael eu dal yn atebol am unrhyw filiau dŵr nad ydynt wedi cael eu talu mewn tai o'u heiddo nhw.[77]

---

[72] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *E&S(4)-13-13 papur 1,* 1 Mai 2013
[73] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymateb i Ymgynghoriad WP 7 –Ofwat*
[74] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion p187, 17 Ebrill 2013
[75] *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* [fel ar 18 Ebrill 2013]
[76] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymateb i Ymgynghoriad WP 4 – y Cyngor Defnyddwyr Dŵr*
[77] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *E&S(4)-13-13 papur 1,* 1 Mai 2013

**Barn y Pwyllgor**

94. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli'r pwysau y mae biliau heb eu talu yn eu rhoi ar gwmnïau dŵr ac yn cydnabod yr anawsterau y maent yn eu hwynebu i gasglu'r arian hwn. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu Rheoliadau Dyledion Drwg a byddem yn ei hannog i wneud hynny fel mater o frys i helpu cwmnïau dŵr i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol hon.

# 3. Strategaeth Ddŵr i Gymru

95. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd y byddai'n cyhoeddi strategaeth ddŵr i Gymru i ymgynghori yn ei chylch yn ddiweddarach eleni. Dywedai'r papur y bydd y strategaeth yn pennu cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru o ran polisi dŵr yng Nghymru i'r dyfodol ac yn ystyried sut y gall y strategaeth gefnogi anghenion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru.[78]

96. Dywedai'r dystiolaeth ysgrifenedig hefyd fod Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â rhaglen i ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyfrannu at ddatblygu'r strategaeth ddrafft.

97. Mewn llythyr diweddaru at y Pwyllgor dyddiedig 8 Gorffennaf, dywedodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu cyhoeddi strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghori ym mis Tachwedd 2013. Yn y llythyr, dywedodd y Gweinidog:

> "The Water Strategy will be timely to provide direction to the water sector in Wales on the expectations of the Welsh Government and also to ensure that the needs of our citizens, environment and economy are suitably supported by our natural resources".[79]

**Barn y Pwyllgor**

98. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Strategaeth Ddŵr i Gymru ac mae'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd i'w datblygu.

---

[78] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *E&S(4)-13-13 papur 1*, 1 Mai 2013

[79] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *E&S(4)-20-13 papur 1*, 17 Gorffennaf 2013

## Atodiad A – Cylch Gorchwyl

Diben yr ymchwiliad oedd i ystyried:

- Pa effaith y byddai’r Bil Dŵr drafft yn ei chael ar gystadleuaeth yn y farchnad annomestig yng Nghymru;
- Os oes unrhyw faterion penodol a allai godi o gael cyfundrefnau marchnad gwahanol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cwsmeriaid annomestig, yn enwedig mewn ardaloedd ar y ffin;
- Pa ddulliau sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i sicrhau fforddiadwyedd dŵr yn y farchnad ddomestig;
- Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar ei ymrwymiadau a nodir yn niweddariad y Rhaglen Lywodraethu (Mai 2012);
- A ddylai'r Llywodraeth fod yn gwneud unrhyw beth arall i sicrhau fforddiadwyedd dŵr yn y farchnad ddomestig?
- Gyda golwg benodol ar fforddiadwyedd a chystadleuaeth, beth ddylai Llywodraeth Cymru ei gynnwys yn y Strategaeth Dŵr sydd ar y gweill?

## Atodiad B - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau'r cyfarfodydd yn
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1308

| | |
|---|---|
| **21 MAWRTH 2013** | |
| **Sesiwn 1** | |
| Nigel Annett | Dŵr Cymru |
| Mike Davis | Dŵr Cymru |
| **Sesiwn 2** | |
| Andrew Fairburn | Severn Trent Water |
| **Sesiwn 3** | |
| Diane McCrea | Pwyllgor Cymru Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr |
| Tony Smith | Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr |
| **17 EBRILL 2013** | |
| **Sesiwn 4** | |
| Keith Mason | Ofwat |
| **1 MAI 2013** | |
| **Sesiwn 5** | |
| Alun Davies AC | Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd |
| Prys Davies | Llywodraeth Cymru |
| Olwen Minney | Llywodraeth Cymru |

Yn ogystal â'r tystiolaeth llafar ffurfiol, mae'r tîm Allgymorth wedi cynhyrchu pecyn fideo sydd yn cynnwys cyfraniadau gan fusnesau a sefydliadau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Pwrpas y fideo yw dangos beth yw cryfderau a gwendidau'r system gyfredol ym marn busnesau ac aelodau o staff sy'n gweithio i gyrff y sector cyhoeddus, ac i esbonio cryfderau a gwendidau posib y cynigion hyn ar eu sefydliad.

Gellir gweld y fideo yn:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/committees/water-policy-wales-2013-video-evidence.htm

Ceir rhestr isod o'r sefydliadau a gytunodd i gymryd rhan, ac sy'n ymddangos yn y pecyn fideo.

| *Enw* | *Sefydliad* |
|---|---|
| Alison Pall | Stonehouse Brewery, Croesoswallt, Sir Amwythig |
| Nick Oulton | Rhallt Care Home, Trallwng |
| Buster Grant | Brecon Brewing, Aberhonddu |
| Eric Thomas<br>Christopher Lewis<br>David Mundow | Gwasanaethau Cyfleusterau, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru<br>Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan |
| Sandy McIntyre | Plas Coch Holiday Homes, Ynys Môn |
| Renia Kotynia<br>Michael Cantwell<br>Emma Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Will Pierce | Cyngor Sir Fflint |
| Graham Jones | Ffederasiwn Busnesau Bach / Aelod o Banel Defnyddwyr Dŵr Dyffryn Dyfrdwy |
| Antony Smith | Wyastone Estates Ltd, Trefynwy |
| Mark Woolfenden | Golchdy Afonwen Cyfyngedig, Gwynedd |
| Mark Drew | Canolfan Hamdden a Gweithgareddau'r Byd Dŵr, Wrecsam |
| Andrew Barron | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |

## Atodiad C - Tystiolaeth Ysgrifenedig

Cafwyd y dystiolaeth ysgrifenedig ganlynol. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5272

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Dŵr Dyffryn Dyfrdwy | WP 1 |
| Severn Trent Water | WP 2 |
| Achub y Plant | WP 3 |
| Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr | WP 4 |
| Comisiwn Ddydiant Dŵr Yr Alban | WP 5 |
| Dŵr Cymru | WP 6 |
| Ofwat | WP 7 |